**Adolygu Dyluniadau**

**Canllawiau ar Adolygu Dyluniadau ar gyfer Ymgeiswyr y Rhaglen Tai Arloesol 2020**

Dylai pob un sy'n gwneud cais am gyllid drwy'r Rhaglen Tai Arloesol ymgynghori â Chomisiwn Dylunio Cymru ar eu cynigion. Dylent wneud hynny drwy wasanaeth adolygu dyluniadau Comisiwn Dylunio Cymru.

Mae Comisiwn Dylunio Cymru yn ceisio hyrwyddo dyluniadau da yn yr amgylchedd adeiledig a bwriad y gwasanaeth adolygu dyluniadau yw creu newidiadau cadarnhaol i gynigion er mwyn ychwanegu gwerth a gwella eu cyfraniad at les y cyhoedd. Y ffordd orau o gyflawni hyn yw dechrau arni'n gynnar yn y broses dylunio fel bod cyfle i wneud newidiadau cyn gwneud cais i'r Rhaglen Tai Arloesol. Rydyn ni'n cydnabod na fydd modd gwneud hynny bob amser ym mhroses y Rhaglen Tai Arloesol, ond dylid gwneud pob ymdrech i ymgysylltu â Chomisiwn Dylunio Cymru ar adeg briodol a chyn gynted ag y bo modd.

Bydd yr adolygiad yn ystyried holl agweddau'r dyluniad, nid dim ond yr arloesedd arfaethedig. Bydd Comisiwn Dylunio Cymru yn cadarnhau ei bresenoldeb wrth adolygu'r dyluniad ac yn darparu copi o'r adolygiad i Banel Asesu'r Rhaglen Tai Arloesol.

Mae diwrnodau adolygu dyluniadau arbennig wedi cael eu trefnu ar gyfer ymgeiswyr y Rhaglen Tai Arloesol. **Dyma'r dyddiadau sydd ar gael:**

| | |
|---|---|
| Awst: | Dydd Llun 17, Dydd Mercher 19 |
| Medi: | Dydd Mawrth 8, Dydd Mercher 16, Dydd Llun 21, dydd Mercher 23 |

Yn sgil gofynion cadw pellter cymdeithasol COVID-19, bydd yr adolygiadau yn cael eu cynnal ar-lein dros MS Teams. Os nad oes gennych fynediad at MS Teams neu os oes gennych unrhyw gwestiynau technegol, cysylltwch cyn gynted â phosib.

**DYDDIAD CAU AR GYFER ARCHEBU - DIWEDD AWST 2020**

Mae'n bwysig eich bod yn cysylltu â Chomisiwn Dylunio Cymru cyn gynted â phosibl drwy'r manylion cyswllt isod i drefnu slot ar un o'r diwrnodau hyn. Rhaid i slotiau adolygu dyluniadau gael eu harchebu erbyn diwedd mis Awst 2020. Bydd y slotiau'n cael eu rhoi ar sail y cyntaf i'r felin.

Bydd y broses adolygu dyluniadau ar gyfer ymgeiswyr y Rhaglen Tai Arloesol fymryn yn wahanol i'r broses arferol er mwyn gwneud yn siŵr bod modd cadw at amserlenni'r Rhaglen Tai Arloesol a bod adborth amserol yn cael ei roi i'r timau. Felly, bydd arnoch angen cyflwyno **un copi electronig** o wybodaeth am eich cynnig i Gomisiwn Dylunio Cymru **wythnos cyn yr adolygiad**. Bydd Comisiwn Dylunio Cymru yn darparu adroddiad byr yn amlinellu ei bwyntiau allweddol i'r tîm cyn pen deg diwrnod ar ôl yr adolygiad.

Mae canllawiau ar y broses adolygu dyluniadau ar gael yn y Canllawiau ar Adolygu Dyluniadau ac yn y ddogfen Hanfodion Adolygu Dyluniadau. Mae'r rhain ar gael ar wefan Comisiwn Dylunio Cymru.

I drefnu i adolygu eich dyluniad, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â Chomisiwn Dylunio Cymru ar connect@dcfw.org